# Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2) 13-06(p3)

### Dyddiad: Dydd Mercher 18 Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

#### Diben

Gofynnir i'r pwyllgor gynnig sylwadau ar sut y bu i Weinidog ADGOS a'r AADGOS (yr Adran Addysg a Hyfforddiant gynt) gyflawni eu dyletswyddau statudol i hybu cyfle cyfartal yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06.

Mae hyn yn dilyn cais gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i bob Pwyllgor Pwnc i graffu ar yr adran sy'n berthnasol iddynt yn Adroddiad Blynyddol 2005-06 ar Gydraddoldeb, ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal cyn ei gyfarfod yn ystod mis Hydref.

#### Crynodeb/Argymhellion

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi gofyn i bob pwyllgor pwnc graffu ar y rhan berthnasol o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ac i roi adborth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Byddai barn y pwyllgorau pwnc yn helpu i lywio gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wrth iddynt graffu ar yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn ystod cyfarfod mis Hydref.

Gofynnir i'r pwyllgor felly

- adolygu cynnwys y rhan o Adroddiad Blynyddol 2005-06 ar Gydraddoldeb sydd i'w gael yn Atodiad 1
- bwydo barn y Pwyllgor yn ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal cyn ei gyfarfod ar 25 Hydref.

#### Cefndir

Fel rhan o gylch gwaith statudol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i archwilio trefniadau cydraddoldeb y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn craffu ar Adroddiadau Blynyddol ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal â Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Yr adroddiadau hyn, ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, yw Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb, sy'n cael ei osod gerbron y Cyfarfod Llawn a'i ddadlau yno.

Ym mis Mai 2006, ysgrifennodd Gwenda Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc yn gofyn iddynt graffu ar adran berthnasol Adroddiad Blynyddol 2005-06 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gydraddoldeb, a rhoi adborth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Byddai barn y Pwyllgorau Pwnc yn helpu i lywio gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wrth graffu ar Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gydraddoldeb yn ei gyfarfod ar 25 Hydref.

Oherwydd hyn, gofynnir i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gynnig sylwadau ar sut y mae'r Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'i Hadran wedi cyflawni eu dyletswyddau statudol i hybu cyfle cyfartal i bawb yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06.

Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

### Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

### Themâu Trawsbynciol

Mae'r papur hwn yn delio'n benodol â chyfle cyfartal.

### Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

- Nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a'u hanfon ymlaen mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal cyn ei gyfarfod ar 25 Hydref.

**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Enw Cyswllt: Kevin Griffiths, Yr Is-adran Datblygu Busnes, Rhif ffôn: 5865**

# Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol 2005-06 Ar Gydraddoldeb

## Y Rhan ar Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Hyrwyddo Cydraddoldeb

6.1 Mae'r Cyfraniadau Llawn gan yr Adrannau fesul maes portffolio i'w cael yn Atodiad B. Bydd y bennod hon yn edrych ar yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud i hybu cyfle cyfartal yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06, wedi eu nodi o dan y prif themâu ar gyfer Cymru: Gwlad Well. Nodir enghreifftiau penodol fesul maes portffolio hefyd fel astudiaethau achos yn y bennod hon.

### Gwella Swyddi a Sgiliau, a Chreu Mwy Ohonynt

### Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

6.13 Bellach, mae 1,700 yn rhagor o athrawon er 1998, a 5,700 yn rhagor o staff cymorth mewn ysgolion. Rydym wedi lleihau bron i bob dosbarth babanod i uchafswm o 30 o ddisgyblion, ac mae cynlluniau peilot ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd wedi eu cynnal mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mis Medi 2004. Rydym wedi buddsoddi dros £100 miliwn y flwyddyn mewn adeiladau ysgol er 2002 ac o 2005-06 ymlaen mae hyn wedi codi i £143 miliwn y flwyddyn. Mae'r nifer sydd ar gynlluniau Prentisiaethau Modern wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru, ac mae oddeutu 13,400 ar y rhaglen, cynnydd o dros 1000 er mis Rhagfyr 2003.

## Data cyfredol

6.14 Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn casglu data ar gefndir ethnig disgyblion 5 oed a throsodd mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir. Mae'r data ar gyfer 2004-05 yn dangos bod oddeutu 4% o ddisgyblion 5 oed a throsodd yn yr ysgolion dan sylw o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac o blith rhain, bod oddeutu 70% o gefndiroedd Asiaidd neu gymysg. Roedd mwyafrif y disgyblion, oddeutu 400,000, yn wyn. O'r disgyblion a oedd yn weddill, roedd oddeutu 2,000 yn datgan eu bod o gefndiroedd ethnig eraill, tra bod manylion bron i 12,600 o ddisgyblion ddim ar gael - er enghraifft, nid oedd y rhiant neu'r plentyn am nodi hynny.

6.15 O'r disgyblion yr oedd gwybodaeth ar gael amdanynt, roedd 96% yn wyn, tra bod disgyblion o gefndiroedd Asiaidd neu gymysg yn cynrychioli ychydig dros 1%. Y grwp lleiaf amlwg yw'r Tsieineaid, sy’n cynrychioli 0.2% yn unig. Mae dosbarthiad disgyblion lleiafrifoedd ethnig 5 oed a throsodd yn ymdebygu'n gyffredinol i ddosbarthiad y boblogaeth yn gyffredinol, 36% yn Asiaidd, 35% yn gymysg, 12% o gefndiroedd eraill, 11% yn Ddu a 6% yn Dsieineaidd.

6.16 Mae'r data a gasglwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn rhoi manylion cofrestriadau yn sefydliadau Addysg Uwch Cymru, yn ôl cefndir ethnig. Er 2000/01, mae cyfran yr holl gofrestriadau a oedd o gefndir ethnig gwyn wedi gostwng o 96.1 y cant i 94.8 y cant, tra bod cofrestriadau gan bobl o bob cefndir lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu. Mae nifer y cofrestriadau o blith grwpiau ethnig lleiafrifol wedi cynyddu dros 2,000 yn ystod y cyfnod hwn. Y grwp mwyaf amlwg o blith y lleiafrifoedd ethnig, o hyd, yw’r rheini sy’n dod o gefndiroedd Asiaidd, sef 42 y cant o’r holl gofrestriadau ymhlith lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng o 47 y cant yn 2000/01, oherwydd cynnydd mewn cofrestriadau ymhlith y rheini o gefndiroedd cymysg. Mae cyfran y rheini o gefndiroedd Tsieineaidd a Du wedi parhau'n weddol sefydlog, er y bu cynnydd mewn niferoedd. Roedd myfyrwyr ôl-raddedig yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig - ychydig o dan 7 y cant o gymharu â 5 y cant o israddedigion.

(Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r dadansoddiadau canlynol, gan y bu lleihad dros y cyfnod yn y cyfran o gofrestriadau lle nad oedd y cefndir ethnig yn hysbys; 11 y cant yn 1998/99 o gymharu â 3 y cant yn 2004/05. Felly mae'n bosib bod rhai o'r newidiadau dros y cyfnod o ganlyniad i welliannau yn ansawdd yr wybodaeth ar ethnigrwydd).

## Ein hymateb

### Gwella'r Ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar

6.17 Mae gwell darpariaeth blynyddoedd cynnar yn hanfodol i wneud yn iawn am anfanteision yn ystod y blynyddoedd cynnar, i sicrhau y gellir galluogi'r plant ieuengaf i ddysgu sut i ddysgu, i gyflawni'n dda a gwneud y gorau o'u doniau, sy’n hanfodol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Mae'r Cynllun Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 mlwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig wedi ei ddatblygu, a bydd yn cael ei weithredu ar gyfer 2006-07. Roedd cysylltu â grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn allweddol i ddatblygu'r rhaglen, er mwyn sicrhau y byddai'n bodloni eu hanghenion penodol hwy. Cafwyd ymrwymiad i barhau â'r drafodaeth a'r cysylltiad.

## Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig

6.18 Mae'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei ddosbarthu'n flynyddol trwy grant penodol i awdurdodau lleol. Nod y grant hwn yw sicrhau gwell cydraddoldeb o ran cyfleoedd addysgol i bob grwp lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys, yn benodol, fesurau i gynorthwyo disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a mesurau i wella safonau cyrhaeddiad ac i fynd i'r afael â'r perygl o dangyflawni. Mae £5 miliwn ar gael yn 2006-07 - yr un cyllid â 2005-06. Mae'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei ddosbarthu i'r 22 o AALlau ar sail fformiwla. Mae'r fformiwla hon yn ystyried nifer y plant a nodwyd eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn ogystal ag asesiad o'u gallu ieithyddol.

## Grant Addysg i Geiswyr Lloches

6.19 Lluniwyd y grant hwn i gynorthwyo awdurdodau i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion a chymorth canolog i ddisgyblion sy'n geiswyr lloches. Mae hefyd yn cynnig ychydig o gymorth i oedolion sy'n geiswyr lloches sydd wedi cofrestru ar gwrs Saesneg fel iaith ychwanegol a ddarperir gan yr awdurdod. Er 2003-04, mae'r grant hefyd wedi ystyried y costau ychwanegol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r disgyblion hynny sy'n geiswyr lloches sydd hefyd ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth. Mae'r grant yn werth £2.4 miliwn yn 2006-07. Gwahoddir AALlau i gyflwyno ceisiadau ym mis Medi yn seiliedig ar nifer y ceiswyr lloches yn eu hardal o fis Mawrth i fis Awst. Yn ystod 2005-06, rhannwyd y cyllid rhwng y pum AALl a gyflwynodd gais - Wrecsam, Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

## Grant Addysg Teithwyr a Phobl wedi'u Dadleoli

6.20 Nod y Grant Addysg Teithwyr a Phobl wedi'u Dadleoli yw gwella presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad disgyblion sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr o fewn y system addysg yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu arian ar gyfer staff ychwanegol a chostau ar wahân i gostau staff i gynorthwyo gydag addysg disgyblion sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr. Mae £900,000 ar gael o dan y cynllun yn ystod 2006-07 - yr un cyllid â 2005-06. Derbyniwyd un ar bymtheg o geisiadau ar gyfer 17 o ardaloedd awdurdodau lleol.

## Cefnogaeth Well i Ddysgwyr sydd ag Anghenion Ychwanegol

6.21 Mae polisi cynhwysiant a fframwaith perfformiad ar gyfer Cymru yn sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried. Mae'r maes polisi hwn yn cynnwys disgyblion anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac eraill sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn

golygu mwy o ymgysylltu o blith y rhai sydd wedi dadrithio fwyaf, a chadw mwy o ddisgyblion. Gwneir hyn drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill i wella ymddygiad a phresenoldeb a mynd i'r afael â bwlio.

6.22 I gyflawni ein hamcanion fel gwlad sydd â lefelau uchel o gyrhaeddiad, a lle y mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu grymuso i gyrraedd sefyllfa foddhaol yn gymdeithasol ac yn economaidd, sy'n hanfodol er mwyn datblygu economi lewyrchus, ein canlyniadau pennaf o ran polisïau cydraddoldeb yw:

- Sicrhau bod nifer cynrychioliadol o blith Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig yn derbyn addysg y Blynyddoedd Cynnar.
- Sicrhau cydraddoldeb o ran cyrhaeddiad ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion yng Nghymru. Mae rhai grwpiau ethnig yn tangyflawni o gymharu ag eraill, ac mae angen nodi'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a personol sy'n dylanwadu ar hyn, a mynd i'r afael â hwy.
- Sicrhau cydbwysedd teg rhwng y rhywiau yn y trefniadau newydd ar gyfer cyllid i fyfyrwyr.
- Ehangu mynediad i fyfyrwyr anabl - gall myfyrwyr anabl deimlo eu bod yn cael eu cyfyngu o ran eu hopsiynau academaidd a galwedigaethol mewn addysg ôl-16.
- Addysgu athrawon a disgyblion yn well ym maes cydraddoldeb i'r anabl, fel nad yw anabledd yn cael ei ystyried bellach yn anarferol, ond yn hytrach yn rhywbeth sydd angen addasu ar ei gyfer mewn rhai achosion.